I S - D D E D D F W R I A E T H

2021 Rhif (LlC21-39)

DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2021

Gwnaed	*26 Mawrth 2021*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2021.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre(**2**).

Diwygiadau i Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017

2.—(1) Mae Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/912 (Cy. 223) ac O.S. 2018/887 (Cy. 176); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

(**3**) Fe'u diwygiwyd gan Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2019 a Chyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2020.

(2) Ym mharagraff 1 o Atodlen 1—

(a) yn is-baragraff (a), yn lle "£4,790" rhodder "£4,833";

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "£19,172" rhodder "£19,344".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn lle "£19,172" rhodder "£19,344".

(4) Ym mharagraff 1 o Atodlen 3, yn lle "£19,172" rhodder "£19,344".

(5) Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn is-baragraff (a), yn lle "£23,317" rhodder "£23,527";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle "£37,826" rhodder "£38,166";

(b) ym mharagraff 2, yn lle "£37,826" rhodder "£38,166".

(6) Yng nghyfarwyddyd 3, ar ôl y geiriau "neu blant dibynnol sy'n parhau'n fyw" mewnosoder "neu i'r ystad".

(7) Ar ôl cyfarwyddyd 6 mewnosoder—

"Yr Ystad

6A. Pan fo Person Cymhwysol yn marw ac nad oes ganddo briod neu bartner sy'n parhau'n fyw na phlant dibynnol ar adeg ei farwolaeth, caniateir i'r Taliad Profedigaeth o dan gyfarwyddyd 5(1) gael ei dalu i ystad y Person Cymhwysol hwnnw."



Yr Athro Chris Jones
Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad 26/03/21